

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 8fed o Chwefror 2018
yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.

Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 11eg o Ionawr 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC Ni cyfarfu'r IBC 31ain o Ionawr
- Cais i Cyngor Gwynedd am Praesept 2018-19
- Ceisiadau Ad 137
 1. Cais am gyfraniad o Eglwys St Cedol tuag at eu costau torri eu mynwent
 2. Cais Rhieni ag Athrawon Ysgol Y Garnedd
 3. Cais am gyfraniad Gwyl Gerdd Dant 2018 Blaenau Ffestiniog
- Cydnabyddiaeth Nawdd
 - Cym Hanes Dyffryn Ogwen

Is Bwyllgorau Ei strwythur

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C17/1269/25/LL Dymchwel yr adeiladau presennol a codi 8 ty fforddiadwy ynghyd a creu mynedfa a llecynnau parcio Land at Tai'r Efail, Penrhos Road, Bangor, Gwynedd
- Ymateb i gyfarfod safle a Shon Williams parthed Llwybr yr Arfordir
- C18/0051/25/LL Adeiladu estyniad unllawr yn gefn yr adeilad **Nid yw hwn yn gais cynllunio ond yn hytrach yn gofyn am farn y Cyngor ynglŷn â'r angen neu beidio am Aseiad Effaith Amgylcheddol**
76, Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NS

Y Wefan Diweddariad ar ddatblygiad y Wefan

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Prydles Canolfan Penrhos
 - Llywodraethwyr Ysgol Rhiwlas
 - Finniau wardiau etholiadol
- Adroddiadau
 - Cwmp y goeden i'r fynwent
 - Hysbysfyrddau - gosod a caniatad
 - Taliadau Meurig gosod Hys Y Fynwent a chodi wal y fynwent

Materion y Cynghorwyr

Menna Baines_ _Canolfan Penrhos – Cyng Dafydd Meurig
Cynrig Hughes Biniu Halen ardal Pentir

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 11^{eg} o Ionawr 2018 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. R Jones, D W Jones, J Pierce, C Hughes, T Anwyl-Williams, D Jones-Morris, R G. Roberts, M Baines, a James Griffiths
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, L James, H Griffiths a B Jones,

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd y Cyng James Griffiths yn ol i'r Cyngor a chydymdeimlo a'r Clerc am ei brofedigaeth ddiweddar

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen
Nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Cynrig E Hughes yn aelod o Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen lle 'roedd argymhelliaid i roi cyfraniad ariannol fel nawdd iddynt. Ni chymerodd ran yn y drafodaeth

Cofnodion 9fed o Dachwedd

Cyng D Jones-Morris yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng Richard G Roberts yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddwyd gan y Cyng M Baines iddi wneud ymholiadau i geisio cael cynrychiolaeth Cynghorydd Cymuned i fynychu PAD ond cael ar ddeallt mae Cynghowyr Sir yn unig ag iddyn nhw rhaedru gwybodaeth i lawr.

Cytunwyd i'r Cyng Baines gyfleu yn ol i PAD barn Cyngor Pentir fod gan y Cyng Cymuned rol bwysig i'w gyfranu tuag at ddatblygiad addysg mewn cymunedau

Llygod Waen wen – y broblem yn parhau – Yr esboniad dderbynodd y Clerc gan Gwynedd oedd fod rhaid i unigolion wneud cais am wasanaeth ag y byddai'r unigolyn/eiddo hwnnw yn gorfod talu am y gwasanaeth.

Cytunwyd eto gan mae problem gymunedol fwy nag un ty oedd hon y byddai y Cyngor yn fodlon talu Gwter y Ganolfan yn Penrhos – angen ei adnewyddu – Clerc i gysylltu a D E Williams i holi os fedra fo ymgymeryd a'r gwaith tra'n gosod yr hysbysfwrdd wrth y safle

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC Dosbarthwyd cofnodion pwyllgorau 29/11/17 a 03/01/18
- **Cadarnhawyd fod yr archwylwyr allannol BDO wedi cwblhau a cyflwynwyd eu archwyliaid**
- Ceisiadau Ad 137 29/11/17 Cylch Meithrin Penrhosgarnedd - Esbonwyd nad cais uniongyrchol am nawdd oedd y llythyr ond yn hytrach gais i drafod eu sefyllfa ariannol a'i defnydd o G'fan Penrhos - Y Clerc wedi ceisio cysylltu ond heb glywed yn ol – **Cytunodd Cyng D Jones-Morris alw heibio i'w gweld**
 - 29/11/17 Ysgol Y Garnedd Cais o'r ysgol ond mantolen ariannol Cym

Rhieni & Athrawon Clerc i gysylltu a'r ysgol i argymhell ail-gyflwyno

- 03/01/18 Goriad **Argymell cyfraniad o £300.00**
- 03/01/18 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Cyng CEH yn datgan buddiant **Argymell cyfraniad o £100.00**
- 03/01/18 Theatr Bara Caws **Dim argymhelliant i gyfranu eleni**
- 03/01/18 Eisteddfaod Genedlaethol Yr Urdd **Dim argymhelliant i gyfranu eleni**
- 03/01/18 Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Y Garnedd **Cytuno iddynt ail-gyflwyno**
- 03/01/18 Seindorf Arian Dyffryn Nantlle **Dim argymhelliant i gyfranu eleni**
- 03/01/18 Dawns i Bawb **Dim argymhelliant i gyfranu eleni**

Cytuno Praesept 2018-19 - Cais i fod i mewn hefo Cyngor Gwynedd erbyn 26ain o Ionawr.

Bu cryn drafodaeth am gynlluniau/prosiectau fyddai'r Cyngor yn dymuno ymgymeryd a hwy yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

Dosbarthodd y Clerc **Atodiad A** oedd yn dangos ein sefyllfa ariannol bresennol ac yn amcangyfrif costau Ionawr, Chwefror a Mawrth 2018.

Amcangyfrifai y byddai oddeutu £13.5K yn y cyfrif ddiwedd Mawrth 2018.

Rhesymai fod hyn oherwydd fod y Cyngor wedi derbyn ad-daliad 2 flynedd o TAW ag nad oeddem wedi prynu ond un gysgodfan ail-law tra i ni brisio dwy newydd ar gyfer praespt 2017-18.

Dosbarthwyd **Atodiad B** oedd yn dangos costau refeniw (cynnal y Cyngor) o £34.15K am 2017-18

Dosbarthwyd **Atodiad C** yn dangos amcangostau refeniw 2018-19 wedi ychwanegu 2% ar gyfer chwyddiant ac ychwanegu eitemau ychwanegol ystyrir fel eitemau angenrheidiol fel hyfforddiant - cyfieithu ar gyfer y Wefan – rhedeg y Wefan – Costau Cyngorwyr os daw i rhym – Costau cyfreithiol ynglwm a phrydles Canolfan Penrhos a adnewyddu prydles y Swyddfa

Deuai'n gyfanswm o £43.4 o filoedd oedd yn agos iawn i gyfanswm Praespt 2017-18 oedd yn £44K

Byddai hynny yn gadael oddeutu £14K wrth gefn

Cytunwyd ystyried tarmacio llwybrau yr hen fynwent Pentir fel prosiect i 2018 – 19 ag yn dilyn hynny cynnigodd Cyng R G Roberts codi £6000.00 ar praespt 2018-19 ag eilwyd y cynnig gan y Cyng T A Williams.

Cynnigwyd gwelliant ar y cynnig gan y Cyng D Jones-Morris fod y Cyngor yn codi'r praespt £6000.00 ond yn gwneud cais am fenthyciad ariannol i wneud y Prosiect fel fod rhywfaint o arian wrth gefn tae argyfwng yn codi. Eilwyd y cynnig gan Cyng R Jones.

Cynnigwyd y gwelliant gerbron gyntaf a derbynwyd y cynnig yn unfrydol

Bydd cais am £50,000 o braespt yn cael ei anfon at Cyngor Gwynedd

Adroddiad o'r Is Bwyllgor Asedau

Dosbarthwyd crynodeb o gofnodion cyfarfod 23 o Dachwedd 2017

Yn ychwanegol i'r prosiectau oedd eisoes wedi eu priso fel llwybrau y fynwent £13.5K a ail-wneud y teils diogelwch yn cae chwarae Caerhun £12.7K trafodwyd ystyried creu llwybr troed caled rhwng Lon Plas a Sgwar Pentir i gyd-redeg at y llwybr troed caled sy'n dod o gyfeiriad Lon Rhiwlas ar yr A4244.

Cael 3 giat mochyn newydd rhwng Ty Newydd a Lon Plas

Comisiynu Englyn i Ganolfan Glasinfryn

Arwydd i Pentref Treborth

Cytunwyd i'r Clerc wneuf ymholiadau

Ceisiadau Cynllunio

- C17/1248/25/LL Adeiladu ty unllawr gyda myneddfa ar wahan a pharcio (cynllun dwiygiedig i un a wrthodwyd dan C17/0694/11/LL) 2, Maes Mawr, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LR **Gwrthwynebu y cais am ei fod yn gosod cynsail i ddatblygu aneddau preswyl mewn gerddi ac na fyddai yn gweddu i weddill y tai cyfagos.**
- C17/1269/25/LL Dymchwel yr adeiladau presennol a codi 8 ty ynghyd a creu mynedfa a llecynnau parcio Land at Tai'r Efail, Penrhos Road, Bangor, Gwynedd **Dim Gwrthwynebiad ond nodi fod Llwybr Cyhoeddus o fewn ffin y datblygiad**
- Adborth o gyfarfod a Shon Williams parthed Llwybr yr Arfordir Y cadeirydd a'r Clerc wedi ymweld a'r safle ond yn argymhell fod cynrychiolaeth fwy o gynghorwyr yn ymweld cyn ymateb fel Cyngor. **Cytunwyd y byddai Cyng R Jones, R G Roberts a D Jones-Morris ynghyd a'r Cad a'r Clerc unwaith eto yn ymweld dydd Iau 18fed o Ionawr**

Y Wefan Diweddariad ar ddatblygiad y Wefan

Yn absennoldeb Cyng L James adroddodd y Clerc nad oedd y Wefan eto yn fyw er i'r Cyng L James fod wedi gobeithio y byddai wedi dod yn fyw cyn y Nadolig. Y gobaith rwan oedd yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ar gyfer cyllido byddai cost oddeutu £400 ar ol blwyddyn y fod yn fyw. Felly rhaid ystyried hyn ar gyfer 2018-19

Materion y Clerc

Gohebiaethau

- Plotiau yn y fynwent.

Dechrau Ionawr daeth ymholiad gan ymgymerydd E W Pritchard Llanberis am gladdu mewn plot A51 oedd wedi ei brynu nol yn y 70au gan Mrs Ella V Roberts Ellim Cottages Portdinorwic. Darganfyddwyd y Plot ar ben rhes o feddi ag wrth ochr y wal derfyn. 'Roedd yn weddol amlwg y byddai yn anodd agor bedd yn y safle gan nad oedd digon o led i agor bedd mor agos i'r wal. Yn 2015 'roedd Cyngor Pentir wedi cael cynnig prynu bedd A72 yn ol gan fab y diweddar Mr Alan Wilks oedd wedi prynu plot yn ol yn 1989.

Drwy'r ymgymerydd cynnigwyd Plot A72 i deulu Mrs E Roberts a derbynwyd y cynnig

Nodwyd fod sawl plot yn y fynwent wedi eu prynu gan unigolion ag efallai y dylid bellach wneud math o syrfe i gadarnhau os yw'r plotiau beddi i gyd yn addas o ran maint a hefyd os yw'r perchnogion yn fyw bellach.

- Prydles Canolfan Penrhos Dim datbygiad na chyswllt wedi bod rhwng y Cyngor Sir a'n Cyfreithiwr yn Gamlins
- Adroddiadau
 - Cysgodfan Rhyd y Groes Y gosgodfan bellach yn ei lle
 - Hysbysfyrddau - Gosodwr y Gysgodfan wedi addo gosod hysbysfwrdd Pentir yr un amser a'r gysgodfan ond 'doedd hynny ddim wedi digwydd a

Clerc i holi

Cyng D Jones Morris ddim wedi clywed dim am caniatad wrth Ysbyty Gwynedd

Materion y Cynghorwyr

Cyng M Baines Gor-yrru yn ardal Glasinfryn

Cyng M Baines wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y ganolfan yn Glasinfryn Nos Iau 25ain o Ionawr

Croeso i ynrhyw un fynychu

Cyng B Jones Arwyddion Ar Werth ar lecynau glas yn ardal Penrhos a Parcio Ysbyty Gwynedd

Yn ei absenoldeb soniodd y Clerc fod arwyddion tai ar werth yn cael eu gosod ar lecynnau glas yn ardal Penrhos. 'Roedd eisioes wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd.

'Roedd Cyng B Jones hefyd yn ymwybodol fod Cwmni preifat bellach yn edrych ar broblemau parcio ar safle Ysbyty Gwynedd a pryderai y byddai hyn yn achosi mwy o broblemau parcio ar strydoedd Penrhos.

Cyng T A Williams yn codi'r mater nad oes arwydd Pentref Treborth

Clerc yn credu mae Cyngor Sir ddylai fod yn gyfrifol.

Clerc i holi

Cyng C E Hughes yn holi ynglyn a taliad am lanhau y cysgodfannau

Clerc i anfon

Daeth y cyfarfod i ben 9.10

Cyngor llawn nesaf 8fed o Chwefror